UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

# Darpariaeth gwerslyfrau ac adnoddau dysgu

Ebrill 2018

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

www.ucac.cymru

## Darpariaeth gwerslyfrau ac adnoddau dysgu

Croesawa UCAC y cyfle hwn i ymateb i ymgynghoriad Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Ddarpariaeth gwerslyfrau ac adnoddau dysgu.

Mae UCAC yn undeb sy'n cynrychioli athrawon, arweinwyr ysgol a darlithwyr ym mhob sector addysg ledled Cymru.

**1. A oes prinder gwerslyfrau neu adnoddau dysgu cyfrwng Cymraeg, neu gyfrwng Saesneg, i ddisgyblion yng Nghymru sy'n dilyn TGAU a Safon Uwch?**

1.1. Mae prinder gwerslyfrau ac adnoddau dysgu cyfrwng Cymraeg wedi bod yn broblem barhaol ar bob lefel o system addysg Cymru. Mae'r mater wedi cael ei godi gan athrawon, ysgolion, mudiadau ac undebau drosodd a throsodd dros y blynyddoedd, ac mae gennym gopïau o ohebiaeth yn mynd nôl rhai blynyddoedd i dystio i hynny.

1.2. Er bod gwelliannau mewn rhai meysydd ac agweddau, nid ydym wedi gweld newidiadau systemig sy'n mynd i'r afael â'r broblem mewn modd cyffredinol ac yn cynnig datrysiadau tymor hir.

1.3. Mae'r mater wedi cael sylw ar y lefelau uchaf yn sgil yr Uwch-gynhadledd a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2017, ar gais Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg. Roedd hyn yn gam pwysig o ran dod â'r rhanddeiliaid perthnasol at ei gilydd i gydnabod y problemau hirdymor, i ddadansoddi'r rhwystrau a cheisio cael hyd i atebion i'w goresgyn.

1.4. Yn sgil yr Uwch-gynhadledd, teimlwn fod ymdrechion gwirioneddol yn cael eu gwneud, gan CBAC yn arbennig, i fod yn ddyfeisgar ynghylch ffyrdd o geisio lleihau'r amserlen ar gyfer cyfieithu adnoddau o'r farchnad fasnachol yn Lloegr. Yn ogystal, mae CBAC yn cynhyrchu llu o adnoddau electronig eu hunain o safon uchel iawn, wedi'u teilwra i'r cymwysterau maen nhw'n eu cynnig. Ond ni olyga hynny fod y broblem wedi'i datrys yn llwyr.

**2. A oes prinder neu broblemau gydag unrhyw bynciau penodol?**

2.1. Atodwn brîff a baratowyd gan UCAC ym mis Gorffennaf llynedd yn rhoi enghreifftiau o'r diffyg adnoddau ar y pryd, a hynny mewn perthynas â dyddiad cychwyn dysgu'r manylebau newydd. Mi fydd yn rhoi syniad i'r pwyllgor o ystod y diffygion o ran niferoedd pynicau dan sylw, yn ogystal â hyd yr oedi – sylweddol iawn mewn rhai achosion, ble fyddai disgyblion wedi gorffen eu cyrsiau cyn i werslyfrau fod ar gael.

2.2. Bu'r cyfnod diweddar yn un arbennig o argyfyngus o safbwynt prinder adnoddau mewn perthynas â chymwysterau TGAU a Safon Uwch, a hynny yn sgil y rhaglen ddiwygio cymwysterau hynod uchelgeisiol. Mae 'na gydnabyddiaeth gyffredinol i amserlen ddiwygio cymwysterau Lloegr wthio llaw Llywodraeth Cymru o ran ei hamserlen diwygio hithau, a bu'r terfynau amser yn llawer rhy dynn – o ran y manylebau eu hunain a'r proses rheoleiddio sydd ynghlwm â nhw, o ran yr amser sydd ar gael i athrawon baratoi i ddysgu'r manylebau newydd, ac yn amlwg iawn o ran y gallu i ddatblygu (a chyfieithu) adnoddau i gydfynd â nhw.

**3. A ydych yn credu bod yr anawsterau a nodir wedi cael effaith ar ganlyniadau disgyblion neu y byddant yn cael effaith arnynt?**

3.1. Ni fyddai hynny'n rhwydd i'w brofi. Ond gellid gofyn i CBAC a neu Gymwysterau Cymru wneud ymchwil i'r mater. Mae athrawon yn ymdrechu'n galed iawn i sicrhau nad yw'r disgyblion yn wynebu anfantais o gymharu â'u cyfoedion yn y sector cyfrwng Saesneg.

3.2. Yr hyn sy'n rhwyddach i'w weld yw'r pwysau ychwanegol gall y sefyllfa hon roi ar ddisgyblion gan eu bod yn gorfod ymdopi â deunyddiau llai 'proffesiynol' a chaboledig – neu eu bod yn defnyddio deunyddiau Saesneg er mwyn astudio tuag at gymhwyster Cymraeg.

3.3. Gall roi neges i ddisgyblion bod eu hastudiaethau'n is-raddol mewn rhyw ffordd am eu bod drwy gyfrwng y Gymraeg, ac nad ydynt yn cael yr un ystyriaeth a chwarae teg. Ar lefel is-ymwybodol,

gall hyn fod yn niweidiol iawn i ganfyddiadau ynghylch addysg cyfrwng Cymraeg, ac i ganfyddiadau ynghylch y Gymraeg a'i statws yn fwy cyffredinol.

3.4. O safbwynt athrawon, yr hyn sy'n gwbl amlwg i ni fel undeb yw bod y sefyllfa'n rhoi pwysau ychwanegol sylweddol iawn ar athrawon sy'n dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (oriau hirfaith o gyfieithu a/neu addasu adnoddau) – a hynny ar ben llwyth gwaith sydd eisoes yn annerbyniol o feichus. Yn Adroddiad Llwyth Gwaith UCAC yn Ionawr 2015, nodwyd bod 91% o'r athrawon yn adnabod paratoi gwersi ac adnoddau fel un o'r tri pheth oedd yn creu'r llwyth gwaith mwyaf. Roedd dros 70% o'r ymatebwyr yn nodi cyfieithu fel gwaith ychwanegol; nid yw athrawon yn gyfieithwyr proffesiynol, nid ydynt wedi eu hyfforddi i gyfieithu ac nid yw cyfieithu yn ddefnydd effeithiol o amser athro.

3.5. Mae athrawon yn ogystal â disgyblion yn teimlo'u bod nhw'n cael eu trin yn israddol a bod diffyg parch iddyn nhw fel athrawon sydd wedi dewis dysgu yn y sector cyfrwng Cymraeg. Mi allai hyn gael effaith ar recriwtio a chadw o fewn y sector, a hynny ar adeg pan mae wir angen cynyddu'r cyflenwad o athrawon â sgiliau Cymraeg i weithio tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, a'r camau a nodwyd yn 'Y Gymraeg mewn Addysg: Cynllun Gweithredu 2017-2021'.

3.6. Mewn rhai achosion, mae ysgolion wedi gorfod buddsoddi mewn adnoddau cyfrwng Saesneg am mai dyna oedd yr unig beth oedd ar gael, ac wedyn yn gorfod ceisio dod o hyd i'r arian i brynu'r gwerslyfrau Cymraeg pan maen nhw'n dod i'r wasg llawer yn hwyrach. Ni all ysgolion fforddio'r math hyn o wariant gwastraffus.

**4. Eich hyder o ran yr adnoddau a'r gwerslyfrau fydd ar gael yn y dyfodol, o ystyried natur gynyddol unigryw cwricwlwm Cymru**

4.1. Mawr obeithiwn bod y gwersi wedi'u nodi a'u dysgu. Erbyn hyn mae gennym reoleiddiwr tu allan i Lywodraeth Cymru, ac mae hynny i'w groesawu'n fawr iawn. Hyderwn y bydd Cymwysterau Cymru yn gweithredu'n gadarn yn y dyfodol, ac yn sicrhau bod amserlen realistig ar gyfer unrhyw ddiwygiadau pellach â ddaw.

4.2. Safbwynt hollol gadarn UCAC yw bod angen i athrawon dderbyn manyleb derfynol flwyddyn gyfan cyn gorfod dechrau'i dysgu, er mwyn rhoi amser digonol i baratoi. Mi ddylai'r adnoddau fod ar gael yn y ddwy iaith ar yr un pryd a chyhoeddi'r fanyleb er mwyn caniatáu i athrawon sy'n gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg gael yr un amser ac amodau ar gyfer paratoi i'w dysgu.

4.3. Er mai adnoddau mewn perthynas â chymwysterau mae'r Pwyllgor yn ymchwilio iddo ar hyn o bryd, mae'n werth nodi'r newidiadau pellgyrhaeddol sy'n dod i'r cwricwlwm cyfan dros y blynyddoedd nesaf, a'r angen tebygol am adnoddau newydd i gyd-fynd ag e. Bydd angen sicrhau bod tegwch o ran argaeledd adnoddau yn y ddwy iaith. Yn ogystal, wrth i'r cwricwlwm newydd fwydo drwyddo i Gyfnod Allweddol 4, mae'n debygol iawn y bydd sgil-effeithiau ar gymwysterau - er nad yw union natur y sgil-effeithiau hynny'n glir eto - ac felly gellid rhagweld rhagor o ddiwygio mewn perthynas â chymwysterau. Mi fydd y datblygiadau hyn yn brawf ar ddifrifoldeb yr holl gyrff perthnasol i gynllunio'n ofalus ac yn realistig i sicrhau darpariaeth deg a chyson yn y ddwy iaith.

4.4. Gan fod y cwricwlwm a chymwysterau fel ei gilydd yng Nghymru a Lloegr yn mynd ar hyd llwybrau cynyddol wahanol, mae'n bosib iawn y byddwn yn gweld llai o ddibyniaeth ar gyhoeddwyr masnachol yn Lloegr. Mae cyfieithu eu gwerslyfrau nhw eisoes wedi dod yn ddibynnol iawn ar gymhellion gan Lywodraeth Cymru a CBAC, ac o'u safbwynt nhw bydd y farchnad Gymreig/Gymraeg yn lleihau i'r pwynt ble na fydd o ddiddordeb mwyach, hyd yn oed gyda chymhellion.

4.5. Mae cyfle felly i edrych yn gynyddol ar ddarpariaeth wreiddiol (yn hytrach na chyfieithiadau o Loegr), a hynny yng Nghymru gan gyhoeddwyr Cymreig. Mae potensial mawr am welliannau drwy wneud hynny, ond byddai angen cynllunio'n ofalus ac yn strategol, dros gyfnod, a sicrhau bod digon o gapasiti o fewn y diwydiant yng Nghymru. Mi fyddai'n braf gweld buddsoddiad Llywodraeth Cymru'n cefnogi busnesau a diwydiant yng Nghymru.


01970 639950 | ucac@ucac.cymru | www.ucac.cymru

5. **Rôl CBAC a Chymwysterau Cymru wrth sicrhau darpariaeth ddigonol o adnoddau**

5.1. Fel y gwelwn ni'r sefyllfa, rôl Cymwysterau Cymru yw gosod a rhoi sêl bendith ar amserlenni mewn perthynas â chymwysterau, a sicrhau bod meini prawf yn cael eu gwireddu. Nid eu rôl nhw yw darparu adnoddau'n uniongyrchol.

5.2. Mae gan CBAC rôl llawer fwy gweithredol o ran darparu adnoddau eu hunain, ac o ran comisiynu ac annog darpariaeth gan eraill, yn ogystal â 'chymeradwyo' ('*endorse*') adnoddau allanol h.y. sicrhau, mewn gwahanol ffyrdd, bod darpariaeth ddigonol o adnoddau ar gael yn y ddwy iaith i gefnogi'r cymwysterau maen nhw'n eu cynnig.

5.3. Awgrymwn fod angen ystyried rôl Llywodraeth Cymru a'r consortia rhanbarthol fel rhanddeiliaid pwysig mewn perthynas â hyn oll yn ogystal, yn arbennig felly'r trefniadau ariannu a grantiau, a'r broses blaenoriaethu.

6. **Unrhyw syniadau neu sylwadau eraill ar ddarparu adnoddau dysgu yng Nghymru**

6.1. Mae angen **gwella sianeli cyfathrebu** er mwyn sicrhau bod athrawon yn ymwybodol o'r adnoddau sydd ar gael iddyn nhw mewn pynciau penodol, a hynny o wahanol ffynonellau. Mae gwendid wedi bod yn hyn o beth.

6.2. Byddai'n fuddiol gallu **gwella dulliau ar gyfer rhannu adnoddau** sydd wedi cael eu datblygu gan athrawon ac ysgolion unigol. Rydym wedi gweld enghreifftiau niferus o athrawon ledled Cymru'n cyfieithu ac yn addasu'r un un adnoddau.

6.3. Yr hyn sy'n hollol greiddiol a sylfaenol yw'r angen i sicrhau tegwch i ddisgyblion ac athrawon p'un a ydynt yn y sector cyfrwng Saesneg neu Gymraeg. Mae'r anhegwch fel petai wedi'i wreiddio'n ddwfn yn system, ac mewn gwlad sy'n ymfalchïo yn ei hymrwymiad at gydraddoldeb, mae'n bryd i hynny newid.



UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU
ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@ucac.cymru
facebook.com/AthrawonCymru twitter.com/AthrawonCymru

www.ucac.cymru

# Adnoddau Cymraeg i gyd-fynd â chymwysterau

## Cyflwyniad

Yn dilyn nifer o ymholiadau/cwynion gan aelodau ynghylch diffyg adnoddau Cymraeg i gydfynd â chymwysterau newydd mewn pynciau penodol, anfonodd UCAC ebost at aelodau yn y sectorau uwchradd ac addysg bellach ddechrau mis Gorffennaf yn gofyn am wybodaeth am brinder neu ddiffygion yn eu meysydd nhw. Cafwyd ymateb toreithiog ac angerddol.

Gwyddom fod diffyg adnoddau Cymraeg wedi bod yn broblem ers blynyddoedd. Rydym yn ymwybodol, yn ogystal, o'r ymdrechion diffuant ac egnïol i geisio datrys y broblem. Fodd bynnag, mae'n amlwg fod problemau dirfawr yn parhau.

### Meysydd a natur y prinder

Cawsom ein harswydo at ystod eang y meysydd y nodwyd bod prinder neu ddiffyg adnoddau ar eu cyfer (gweler Atodiad 1).

Dechreuwyd dysgu rai cymwysterau mor bell yn ôl â mis Medi 2015 nad ydynt wedi gweld unrhyw adnoddau Cymraeg, neu prin, hyd yma. Mae'r un peth yn wir am gymwysterau a ddechreuwyd ym mis Medi 2016, ac mae athrawon sy'n awyddus i ddechrau paratoi ar gyfer cymwysterau newydd ym mis Medi 2017 yn dal i fod yn aros am adnoddau fyddai'n hwyluso'r gwaith yn fawr iawn.

Mewn ambell i achos, er enghraifft Astudiaethau Crefyddol, bydd un cohort wedi cwblhau Safon Uwch heb unrhyw werslyfr Cymraeg ar gyfer UG nac Uwch.

Weithiau ceir rhywfaint o ddeunyddiau ategol (digidol) yn Gymraeg, ond ni cheir y gwerslyfr a/neu'r nodiadau athro (e.e. TAG Seicoleg); bryd arall ceir nodiadau athro ond dim gwerslyfr nac adnoddau ychwanegol (e.e. TAG Cerddoriaeth); ambell waith mae'r adnoddau canolog ar gael ond mae prinder adnoddau ychwanegol. Mae'r patrwm yn amrywio.

Mae'r wybodaeth a'r enghreifftiau sy'n dilyn wedi'u derbyn gennym oddi wrth aelodau. Nid yw wedi bod yn bosib gwirio'r wybodaeth ym mhob achos. Ond hyd yn oed os oes ambell i wall, mae'r pwyntiau mewn egwyddor yn dal i fod yn ddilys ac yn bwysig eu cydnabod a'u taclo.

### Problemau perthynol

- **Ffynonellau Gwybodaeth**
  - Nid yw athrawon bob amser yn derbyn gwybodaeth brydlon pan gyhoeddir adnoddau newydd, ac nid ydynt o reidrwydd yn gwybod ble i chwilio am y wybodaeth ddiweddaraf
  - Daeth i'r amlwg fod aelodau'n cysylltu'n gyson â Swyddogion Pwnc CBAC i holi am hynt adnoddau newydd, ac mai profiad cyffredin oedd cael eu cyfeirio at gyhoeddwyr y llyfrau (h.y. gweisg) i wneud ymholiadau pellach; nid yw ymatebion y Swyddogion Pwnc bob amser mor gymwynasgar/ defnyddiol/adeiladol ag y gellid ei ddisgwyl, ac nid ydym o'r farn ei fod yn ddefnydd da o amser ac adnoddau i athrawon unigol fod yn cysylltu â gweisg a chyhoeddwyr

- **Prinder adnoddau cysylltiedig**
  - Mae aelodau'n tynnu sylw at adnoddau eraill (digidol, yn aml) sydd ar gael yn Saesneg ac nid yn Gymraeg e.e. adnoddau digidol TGAU Sbaeneg Thema 3; taflenni gwaith, cyflwyniadau pwerbwynt Dylunio a Thechnoleg; deunydd digidol TGAU Hanes; UG Daearyddiaeth: Arfordiroedd a Phrosesau Tectonig; Sgiliau Mathemategol ar gyfer Daearyddiaeth UG/U
  - Mewn perthynas â Sgiliau Hanfodol Cymru, tynnwyd ein sylw at y ffaith fod:
    - prinder papurau prawf yn y Gymraeg (3 Saesneg a dim ond un Cymraeg)
    - dim esiamplau o'r prawf Cymraeg tan y funud olaf
    - anawsterau cael mynediad ar-lein at y prawf Cymraeg, a rheidrwydd i archebu papur rhag ofn na fyddai modd cwblhau'r prawf ar-lein
- **Termau**
  Mae'r diffyg adnoddau'n gallu arwain at anghysondeb o ran y defnydd o dermau. Tynnwyd ein sylw at broblem gyda thermau mewn perthynas â Cherddoriaeth, sef bod rhestr o dermau ar gyfer y cwrs TGAU ond nad yw'r un termau'n cael eu defnyddio yn y manylebau TAG. Mae hyn yn peri pryder ynghylch pa dermau'n union fydd CBAC yn eu hystyried yn dderbyniol, yn enwedig gan, adroddwyd, nad yw'r cynllun marcio Safon Uwch yn cael ei gyfieithu.

  Mae aelod sy'n arholi'n allanol ar gyfer Astudiaethau Crefyddol yn dweud iddi weld gwahaniaeth yn safon papurau disgyblion cyfrwng Saesneg a disgyblion cyfrwng Cymraeg, yn bennaf o ran cysondeb/anghysondeb y defnydd o derminoleg. Tybia fod hyn yn rhoi'r disgyblion cyfrwng Cymraeg dan anfantais.

## Sgil-effeithiau i ysgolion ac athrawon

- **Cyfieithu/addasu/creu**
  Mae'n amlwg iawn fod athrawon ledled Cymru yn mynd ati i gyfieithu a/neu addasu adnoddau Saesneg neu i greu eu hadnoddau eu hunain i lenwi'r bwlch; weithiau caiff y gwaith hwn ei rannu rhwng cydweithwyr mewn ysgol neu nifer o ysgolion. Naill ffordd neu'r llall mae'n golygu oriau hirfaith o waith ychwanegol diangen, a gwbl annheg - a hynny ar adeg o bwysau mawr yn barod oherwydd yr angen i fynd i'r afael â manyleb(au) newydd. Yn ogystal, mae'r dyblygu ymdrechion yn arswydus.
- **Comisiynu adnoddau**
  Clywsom enghraifft o ysgol yn ystyried comisiynu ei hadnoddau ei hun mewn maes prinder (agwedd 'Cerddoriaeth Boblogaidd' cymhwyster Cerddoriaeth). Gallai hynny fod yn gostus, a thu hwnt i gyllideb y rhan fwyaf o ysgolion.
- **Troi at y cymhwyster Saesneg**
  Mae rhai ysgolion a cholegau yn dewis cyflwyno'r cymhwyster Saesneg yn hytrach na'r un Cymraeg am fod adnoddau ar gael yn y Saesneg yn unig.
- **Prynu adnoddau Saesneg**
  Am nad oes adnoddau ar gael yn Saesneg, mae rhai ysgolion yn dewis prynu'r adnoddau Saesneg fel bod ganddynt rywbeth i'w ddefnyddio a/neu sail ar gyfer cyfieithu/addasu.
- **Teimlad o ddiffyg parch**
  Am fod y sefyllfa o ran diffyg adnoddau yn un hirhoedlog a systemig, mae athrawon yn teimlo'u bod nhw, fel pobl broffesiynol, a'u disgyblion sydd wedi dewis astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, yn cael eu hamharchu a'u bod yn derbyn triniaeth camwahaniaethol. Mae'n anodd cyflwyno dadleuon credadwy i'r gwrthwyneb.

- **Y berthynas gyda CBAC**
  Yn y mwyafrif helaeth o achosion erbyn hyn, nid oes dewis ond defnyddio cymwysterau CBAC, yn arbennig i ysgolion sy'n darparu cymwysterau cyfrwng Cymraeg. Mae'r teimlad o ddiffyg darpariaeth ddigonol, law yn llaw â'r amhosibilrwydd o droi ar gorff dyfarnu arall, yn gallu cael effaith negyddol ar y berthynas rhwng athrawon/ysgolion â CBAC.

## Camau nesaf

Mae UCAC yn ymwybodol ac yn werthfawrogol o'r ymdrechion sylweddol sy'n cael eu gwneud ar hyn o bryd, ar nifer o lefelau, i sicrhau na fydd bwlch amser o ran adnoddau Cymraeg a Saesneg i gyd-fynd â'r cwricwlwm newydd.

Gwyddom yn ogystal fod ymdrechion yn cael eu gwneud parthed adnoddau i gyd-fynd â chymwysterau. Nid oes modd, erbyn hyn, addasu'r amserlen ar gyfer cyflwyno'r cymwysterau newydd, a rhaid gweithredu o fewn yr amserlenni hynny.

Galwn ar bob sefydliad perthnasol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru a CBAC i weithredu ar frys:

- i lenwi'r bylchau mwyaf argyfyngus/hirhoedlog ar fyrder drwy ddefnyddio'r dulliau fwyaf effeithiol posib
- i gyfathrebu'n glir â'r pwyntiau cyswllt mewn ysgolion i roi gwybod pa gamau sy'n cael eu cymryd, a pha adnoddau a ddisgwylir a phryd, gyda diweddariadau cyson
- i ail-edrych ar reoliadau neu ganllawiau sy'n diffinio pryd mae manyleb cymhwyster newydd yn barod i'w gyhoeddi i sicrhau ei fod yn cynnwys argaeledd adnoddau priodol a digonol yn y Gymraeg a'r Saesneg; nid yw datganiadau o ewyllys da yn ddigon ar eu pennau eu hunain

## Crynodeb

Gwerthfawrogwn yr ymdrechion, dros y blynyddoedd, ac yn arbennig ar hyn o bryd i sicrhau nad oes blwch annerbyniol rhwng cyhoeddi adnoddau Saesneg a Chymraeg i gyd-fynd â chymwysterau newydd.

Fodd bynnag, mae'r sefyllfa bresennol yn parhau i fod yn peri problemau dirfawr i athrawon a disgyblion yn y sector cyfrwng Cymraeg, ac yn debygol o wneud dros y flwyddyn neu ddwy nesaf.

Mae angen gweithredu ar frys i lenwi'r bylchau er mwyn osgoi camwahaniaethu yn erbyn staff a disgyblion yn y sector cyfrwng Cymraeg. Ymhellach, rhaid cymryd camau penodol i sicrhau na fydd modd i sefyllfaoedd o'r fath godi eto yn y dyfodol. Byddai gwarant o'r fath yn mynd rhywfaint o'r ffordd i dawelu pryderon aelodau UCAC.

**Gweler Atodiad 1 ar y dudalen sy'n dilyn. Dyma'r wybodaeth a ddarparwyd gan aelodau mewn ymateb i neges e-bost ddechrau mis Gorffennaf am feysydd ble mae diffyg/prinder adnoddau.**

UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru
Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU
ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@ucac.cymru
facebook.com/AthrawonCymru twitter.com/AthrawonCymru
www.ucac.cymru

| Pwnc | Cymhwyster | Dyddiad dechrau dysgu |
|---|---|---|
| Addysg Gorfforol | UG<br>Uwch | Medi 2016 |
| Bwyd a Maeth | TGAU | Medi 2016 |
| Astudiaethau Crefyddol | TGAU<br>UG<br>Uwch | Medi 2017<br>Medi 2016<br>" |
| Astudio'r Cyfryngau | TGAU<br>UG | Medi 2017 |
| Cerddoriaeth | UG<br>Uwch | Medi 2016 |
| Cymdeithaseg | TGAU<br>Uwch | Medi 2017<br>Medi 2015 |
| Daearyddiaeth | UG<br>Uwch | Medi 2016 |
| Dylunio a Thechnoleg<br>• Dylunio Cynnyrch<br>• Ffasiwn a Thecstiliau<br>• Dylunio Peirianyddol | TGAU | Medi 2017 |
| Dylunio a Thechnoleg<br>• Ffasiwn a Thecstiliau<br>• Dylunio Peirianyddol | UG<br>Uwch | Medi 2017 |
| Electroneg | TGAU<br>UG | Medi 2017 |
| Hanes | TGAU<br>UG<br>Uwch | Medi 2017<br>Medi 2015<br>" |
| Iechyd a Gofal Cymdeithasol | TGAU<br>UG<br>Uwch | ?<br>Medi 2015<br>" |
| Ieithoedd Tramor Modern<br>• Almaeneg<br>• Ffrangeg<br>• Sbaeneg | TGAU & Uwch<br>UG & Uwch<br>TGAU & Uwch | Medi 2016 |
| Lletygarwch ac Arlwyo | Lefel 1/2 | Medi 2016 |
| Llywodraeth a Gwleidyddiaeth | UG | Medi 2017 |
| Mathemateg<br>Mathemateg Bellach | UG<br>Uwch | Medi 2017 |
| Seicoleg | UG<br>Uwch | Medi 2015 |
| Troseddeg | Diploma Lefel 3 (bl.12) | Medi 2015 |
| | | |

| Eraill | |
|---|---|
| Y Fagloriaeth | TGAU<br>Uwch |
| Sgiliau Hanfodol Cymru<br>• Cyfathrebu<br>• Rhifedd<br>• Llythrennedd Digidol | |
| Adnoddau'n ymwneud â dyslecsia | |
| Prawf darllen a sillafu Cymraeg | |
| Adnoddau iaith a lleferydd | |
| | |